

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 06 Tachwedd 2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Safonau gweithredol ar gyfer defnyddio Rhif y GIG

Dyddiad Dod i Ben / Adolygu

Adolygu drwy Fenter Gwella Ansawdd Gwybodaeth tan 2020

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd ac
Ymddiriedolaethau

Angen gweithredu erbyn:

Ar unwaith ac fesul y camau a amlinellir hyd at
2020.

Anfonir gan: Peter Jones

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :

Sally Greenway, Iechyd a Gofal Digidol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Parc Cathays,
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: sally.greenway@wales.gsi.gov.uk

Dogfen(nau) amgaeedig: DSCN 2015 / 06

Annwyl Gydweithiwr,

Safonau gweithredol ar gyfer defnyddio Rhif y GIG

Rhif y GIG yw'r unig ddynodwr cenedlaethol unigryw ar gyfer cleifion ac fe'i defnyddir er mwyn helpu staff a darparwyr gwasanaethau gofal iechyd i gael gafael ar gofnodion iechyd cleifion. Rhif 10 digid ydyw, ac mae wedi'i roi i bob unigolyn sydd wedi'i gofrestru â'r GIG yng Nghymru a Lloegr.

Bydd defnyddio Rhif y GIG yn gyson a sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael arno yn helpu i sicrhau bod y GIG yn y sefyllfa ddelfrydol o gael un cofnod i bob claf. Mae cofnodion dyblyg yn golygu bod gwybodaeth am gleifion yn dameidiog a gallant hefyd arwain at oblygiadau i ddiogelwch clinigol.

Bydd defnyddio Rhif y GIG i reoli data sy'n ymwneud â chleifion yn hwyluso'r broses o ddod o hyd i'r wybodaeth gywir ar gyfer cleifion. Bydd hyn o fudd i holl staff y GIG sy'n dod i gysylltiad â chleifion oherwydd gallant fod yn hyderus bod y wybodaeth gywir ganddynt ar gyfer pob claf.

Mae datblygiadau o ran gwybodaeth a thechnoleg feddygol wedi arwain at ddatblygu gweithdrefnau a gwasanaethau newydd ym maes gofal iechyd. Wrth i weithdrefnau newid, mae'r ffordd y caiff y broses o roi triniaeth ei threfnu hefyd wedi newid. Wrth roi triniaeth i glaf, mae angen cynnwys arbenigwyr meddygol amrywiol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a bydd hyn yn digwydd ar draws ystod eang o ffiniau sefydliadol ym maes gofal iechyd.

Mae llawer o adrannau'n defnyddio gwahanol systemau clinigol, sy'n golygu bod cofnodion cleifion yn cael eu cadw o fewn mwy nag un system. Mae hyn yn peri risg glinigol oherwydd gallai pob system gynnwys gwybodaeth a allai ddylanwadu ar y gofal a roddir i gleifion, ac nid oes un system sy'n cynnwys cofnod gofal cyflawn.

Bydd defnyddio Rhif y GIG fel dynodwr unigryw ar gyfer cleifion hefyd yn helpu i sicrhau y gellir cyfeirio'n ôl yn gywir at samplau, delweddau a phroffion eraill sy'n berthnasol i gleifion, a'u gosod yn y cofnodion cywir.

Er mwyn cefnogi gofal cleifion mewn ystod o leoliadau, mae systemau technoleg gwybodaeth cenedlaethol yn tynnu data blaenorol o wahanol systemau lleol, gan wneud pethau'n fwy cymhleth byth. Mae'n bosibl y bydd angen i glinigwyr gael gafael ar wybodaeth am driniaethau blaenorol a gwybodaeth am gleifion o holl systemau blaenorol y GIG. Yr unig ddynodwr unigryw y bydd gan bob clinigwr er mwyn gallu gwneud hyn yw Rhif y GIG; gall rhifau ysbyty a dynodwyr systemau eraill amrywio o un sefydliad i'r llall, neu mae'n bosibl bod yr un rhifau'n cael eu defnyddio, ond eu bod wedi'u rhoi i gleifion gwahanol.

Caiff y broblem ei dwysáu gan y ffaith ei bod yn anodd cyfateb cofnodion rhwng gwahanol systemau clinigol am fod y cofnodion demograffig yn aml yn cynnwys data anghyflawn neu o ansawdd gwael. Gall pob system hefyd gynnwys cofnodion dyblyg ar gyfer yr un claf, o ganlyniad i brosesau gweithredol gwael ar gyfer cofrestru cleifion a llywodraethu, polisiâu a gweithdrefnau gwael ar gyfer trin gwybodaeth.

Er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o risg glinigol, mae angen i unrhyw aelod o staff sy'n cyfrannu at ofal claf gael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol. Gyda'r systemau ar eu ffurf bresennol, mae hyn yn aml yn amhosibl am fod gwybodaeth am gleifion wedi'i lledaenu ar draws sawl cofnod a sawl system glinigol. Hefyd, mae aelodau o staff y rheng flaen yn gyndyn o ddefnyddio Rhif y GIG am eu bod yn ystyried bod rhif yr ysbyty yn fwy cadarn ac yn dweud 'nad oes gan bawb Rif GIG'.

Fodd bynnag, dengys gwybodaeth ddiweddar mai llai na 3% o'r boblogaeth sydd heb Rif GIG.

Mae nifer o wahanol Gylchlythyrau Iechyd Cymru wedi cael eu cyhoeddi sy'n sôn am ddefnyddio Rhif y GIG:

- Roedd WHC (98) 60 yn gwneud defnyddio Rhif y GIG yn ofynnol ymhob set ddata sylfaenol o fis Ebrill 2009 ymlaen
- Roedd WHC (90) 80 yn amlinellu gofyniad Caldicott i ddefnyddio Rhif y GIG fel dynodwr cod
- Roedd WHC (2007) 074 yn atgoffa pobl o rôl hanfodol Rhif y GIG o ran sicrhau ansawdd data gwell a chysylltiadau gwell rhwng cofnodion ac yn dweud y dylid cyflwyno cynigion ynglŷn â defnyddio'r Rhif yn fwy eang gerbron Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru.

Hefyd, cyhoeddwyd Hysbysiad Arfer Mwy Diogel gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn 2009, ynghylch y risg i ddiogelwch cleifion a achosir gan beidio â defnyddio Rhif y GIG fel dynodwr cenedlaethol i bob claf.

Mae Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru bellach wedi cymeradwyo safon gwybodaeth newydd ar gyfer defnyddio Rhif y GIG yn weithredol. Mae manylion llawn y cyflwyniadau a'r canlyniadau i'w gweld yng nghofnod cyflwyniadau Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru. Mae'r cylchlythyr hwn yn amlinellu sut y mae'n RHAIID, sut y DYLLID a sut y GELLIR defnyddio Rhif y GIG ymhob system wybodaeth sy'n cyfrannu at ofal cleifion ymhob rhan o'r gymuned iechyd. Mae'n darparu'r fanyleb ar gyfer sut y dylai Rhif y GIG gael ei ddefnyddio gan gyrff y GIG a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru mewn partneriaeth â'r GIG. Dylid ei ddarllen ar y cyd â DSCN 2015 / 06, sy'n nodi pob un o'r gofynion system a'r gofynion i ddefnyddwyr yn fanwl.

Bydd rhoi'r Safon hon ar gyfer Rhif y GIG ar waith yn sicrhau bod pob system sy'n integreiddio â chynnyrch Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn defnyddio Rhif y GIG yn briodol ac y bydd dynodwr cyffredin ar waith ymhob system.

Caiff y Safon ei rhoi ar waith mewn tri cham.

1. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys rhoi'r Safon ar waith ar gyfer yr holl waith caffael newydd a wneir gan GIG Cymru.
2. Mae'r ail gam yn cynnwys chwe phrif System Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a System Rheoli Cleifion Caerdydd a'r Fro, sef:
 - System Gweinyddu Cleifion Myrddin
 - System Rheoli Gwybodaeth Labordai TrakCare
 - System Rheoli Radioleg (RadIS)
 - System Fferyllfa Ysbyty
 - Porth Clinigol Cymru
 - Canisc
 - System Rheoli Cleifion Caerdydd a'r Fro
3. Bydd y trydydd cam yn ymwneud â phob system berthnasol sy'n weddill. Diffinnir y rhain fel a ganlyn:
 - Pob system wybodaeth sy'n helpu'r gwaith o gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau'r GIG sy'n cadw data demograffig am gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau

- Pob system wybodaeth sy'n helpu'r gwaith o gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal a ddefnyddir i drosglwyddo gwybodaeth am gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau, neu ei chyfleu mewn unrhyw ffordd arall, i gyrff eraill sy'n comisiynu neu'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru mewn partneriaeth â'r GIG
- Pob system wybodaeth newydd a gaiff ei chaffael ar ôl i'r safon hon ddod yn weithredol

Mae cam un yn weithredol ar unwaith.

Dylid cwblhau cam dau erbyn mis Ebrill 2018.

Dylid cwblhau cam tri erbyn mis Ebrill 2020.

Bydd y cynnydd a wneir o ran rhoi'r Safon ar waith yn cael ei fonitro o fewn y Fenter Gwella Ansawdd Gwybodaeth.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cylchlythyr hwn at Sally Greenway ar sally.greenway@wales.gsi.gov.uk

Yn gywir,



Peter Jones

Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd a Gofal Digidol

Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol